

Pecyn Croeso:

Ar gyfer Aelodau Newydd

Adolygwyd ddiwethaf: Rhagfyr 2025

Diweddarwyd ddiwethaf: Rhagfyr 2025

Hwre! Rydych chi wedi ymuno â chlwb MSAGM (Mudiad Sgowtiaid a Geidiaid Myfyrwyr), mae eich clwb lleol wedi'i gysylltu â MSAGM Cenedlaethol sy'n caniatáu ichi fynychu Digwyddiadau Cenedlaethol a defnyddio ein hadnoddau. Nod y pecyn hwn yw eich helpu i ddeall pa fanteision y mae MSAGM Cenedlaethol yn eu cynnig i chi a'ch cyflwyno i MSAGM yn gyffredinol. Mae'r ddogfen hon yn hir (mae'n ddrwg gen i) ond fe'i cynlluniwyd i fod yn adnodd i chi chwilio am wybodaeth a chael trosolwg o lawer o feysydd MSAGM a dwyn i gof ambell beth nad oeddent efallai'n glir wrth ymuno â MSAGM i ddechrau. Mae'n cynnwys llawer o fanylion am y canlynol:

- Dod o hyd i'ch clwb.
- Cyflwyniad i'r digwyddiadau yn MSAGM.
- Cwrdd â Thîm Pinc, ein pwyllgor cenedlaethol.
- Darganfod mwy.

Mae pob un o'r pynciau hefyd yn cyfeirio at ddogfennau perthnasol eraill mewn mannau eraill ar y wefan os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch - gellir dod o hyd i'r holl daflenni ffeithiau a grybwyllir yn <https://www.ssago.org/resources/factsheets>. Gallwch hefyd gysylltu â Thîm Pinc unrhyw bryd a fydd yn gallu eich cyngori drwy e-bostio pink@ssago.org. Os ydych chi byth yn ansicr dyma'ch lle cyntaf i droi! Noder nad polisi yw'r ddogfen hon, dim ond cyngor.



Rali o'r Blaen i'r Cefn, Mehefin 2025

Dod o hyd i'ch clwb

Os ydych chi eisoes wedi ymuno â chlwb ac wedi'ch sefydlu ar y wefan, gwyh! Mae croeso i chi symud ymlaen i'r adran nesaf. Os na, ewch i ssago.org/clubs lle byddwch yn dod o hyd i gyfeiriadur o glybiau a map defnyddiol i'ch helpu i ddod o hyd i'ch clwb agosaf.

Os nad oes clwb yn eich Prifysgol peidiwch â chynhyrfu! Ymunwch fel Aelod Annibynnol yma ssago.org/clubs/indie. Fel aelod annibynnol byddwch chi'n dal i allu mynychu holl Ddigwyddiadau MSAGM Cenedlaethol/Rhanbarthol a byddwch chi'n rhan o'ch cymuned annibynnol cenedlaethol eich hun. Yn lle pwyllgor, mae'r 'Indie Club' yn cael ei drefnu a'i gefnogi gan gynrychiolydd clybiau annibynnol y gellir cysylltu ag o neu hi drwy e-bostio indie@ssago.org.

Dim clwb yn eich prifysgol ac yn teimlo'n anturus? Beth am ddechrau clwb newydd! I wneud hyn, does ond angen i chi ddod o hyd i bwyllgor llawn (Cadeirydd, Ysgrifennydd a Thrysorydd) o aelodau brwdfrydig, cysylltu â'ch Undeb Myfyrwyr i gychwyn y gymdeithas ac yna anfon e-bost at members@ssago.org i gysylltu â MSAGM Cenedlaethol. Mae rhagor o wybodaeth am gychwyn clwb newydd ar gael ar Daflen Ffeithiau 9.

Mae rhagor o wybodaeth am ymuno ag MSAGM ar gael ar Daflen Ffeithiau 4.

Digwyddiadau

Mae yna lawer o ddigwyddiadau y gallwch chi gymryd rhan ynddynt yn MSAGM y tu hwnt i'r hyn y mae eich clwb yn ei gynnal - mae pedwar Digwyddiad Cenedlaethol mawr bob blwyddyn: 3 Rali (gwersylloedd) tua mis Chwefror/Mawrth, Mehefin a Thachwedd a Dawns

a gynhelir tua gwyliau'r Pasg. Efallai yr hoffech chi hefyd gymryd rhan yn ein digwyddiadau gwasanaeth "Cefnogaeth MSAGM" neu ddigwyddiadau Rhanbarthol gyda chlybiau cyfagos.



Rali Leeds of the Rings, Tachwedd 2024

Rali

Gwersyll cenedlaethol yw'r Rali, a gynhelir unwaith bob tymor ac mae grwpiau MSAGM o bob cwr o'r Deyrnas Unedig yn cyfarfod i ymuno mewn gweithgareddau, mwynhau anturiaethau a gwneud ffrindiau newydd o bob rhan o'r wlad. Gallant amrywio o ran maint o tua 150 i dros 300 o bobl. Mae pob un yn cael ei gynnal gan glwb MSAGM ac yn seiliedig ar thema gan gynnig amrywiaeth o weithgareddau drwy gydol y penwythnos ac mae'r costau'n dechrau o £32.50, gyda rhai gweithgareddau neu lety dan do am gost ychwanegol.

Mae clybiau'n cyrraedd nos Wener (gan adael ar ôl darlithoedd) a chynhelir y prif weithgareddau ar ddydd Sadwrn, yn aml yn cynnwys mynd i'r dref/ddinas agosaf ar gyfer ras monopoly, archwilio atyniadau, crwydro tafarndai a chaffis a beth bynnag arall sydd i'w wneud. Fel arfer mae yna hefyd y dewis i fynd ar deithiau cerdded oddi ar y safle, ac mae rhai raliau yn cynnig gweithgareddau ar y safle hefyd! Y tu allan i'r amseroedd hyn mae yna amrywiaeth o weithgareddau eraill a chyfleoedd i wneud ffrindiau newydd o bob cwr o'r wlad, gan fod pawb bob amser yn gyfeillgar iawn! Mae raliau yn rhoi seibiant (haeddiannol gobeithio!) o straen y brifysgol.

Edrychwch ar Daflenni Ffeithiau 22 a 23 am ragor o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd mewn Raliau a beth i'w bacio ar gyfer eich digwyddiad cyntaf.



Dawns Pen-blwydd Aber, Ebrill 2024

Dawns

Mae'r Ddawns yn ddigwyddiad blynyddol sy'n caniatáu i bobl wisgo'n ffurfiol ac ymlacio. Ar wahân i'r cinio, y ddawns a'r parti wedyn, mae trefn y ddawns yn llai caeth na Rali - fel arfer mae'r gwesteiywyr yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau o nos Wener i fore Sul os ydych chi hefyd eisiau gweld y ddinas neu wneud taith hir pobl yn werth yr amser Mae yna hefyd amrywiaeth o ddewisiadau llety ar gael ar gyfer pob cyllideb.



Witan Burg Rieneck, Medi2024

Witan

Mae MSAGM cenedlaethol hefyd yn cynnal digwyddiadau rhyngwladol, o'r enw Witan, bob 4 blynedd neu fwy, gyda'r un ddiwethaf i'w gynnal ym mis Medi 2024 yn Rieneck, yr Almaen, a'r nesaf yn Ribe yn Nenmarc ym mis Awst 2028.



Aelodau MSAGM a SAGGA a redodd Her y Parc Olympaidd yn WSJ 2023

Cefnogaeth MSAGM

Mae MSAGM Cenedlaethol hefyd yn cefnogi rhai o ddigwyddiadau cenedlaethol y sgowtiaid a'r geidiaid drwy anfon tîm o wirfoddolwyr brwdfrydig. Cyhoeddir y rhain cyn gynted â phosibl ond y prif rai rydyn ni wedi bod ynddynt yn ddiweddar yw WSJ 2023 (yn cynnal Her Parc Olympaidd MSAGM), Midnight Madness DUSAGG a Thaith Gerdded Nos SCOGUI. Rydym hefyd wedi cael grwpiau bach o aelodau yn Magical Midlands, EIJ, Wingding, KIJ, Wellies and Wristbands a mwy! Gan edrych ymlaen, rydym yn gobeithio trefnu rhai minteioedd Cymorth MSAGM o IST mewn jamborîs yn y DU, felly cadwch lygad am hynny.

Os oes gennych chi ddigwyddiad rydych chi angen gwirfoddolwyr ar ei gyfer, cyn belled â'i fod yn gysylltiedig â'r Sgowtiaid neu'r Geidiaid, mae croeso i chi ddefnyddio ein rhwydwaith i ddod o hyd i'ch gwirfoddolwyr eich hun.



Gwersyll Glasfyrwyr Canolbarth Lloegr 2024

Digwyddiadau rhanbarthol

Anogir clybiau i gymryd rhan mewn ystod eang o ddigwyddiadau rhanbarthol o gyfarfodydd rhanbarthol i wersylloedd i fyfyrwyr newydd. Mae clybiau'n gallu cynnal digwyddiadau a gwahodd clybiau eraill drwy'r wefan. Yn 2024 roedd gwersylloedd i fyfyrwyr newydd yng ngogledd-orllewin Lloegr (Gwersyll Ye Olde Freshers SALSAGO), Canolbarth Lloegr (Pirates of the Midlands Keele SSAGO), Cymru (Gwersyll Canoloesol Glasfyrwyr Cymru) ac roedd amryw o glybiau mewn rhanbarthau eraill yn cynnal eu rhai llai eu hunain. Cynhelir gwersylloedd rhanbarthol gan glwb yn y rhanbarth ac mae croeso i unrhyw aelodau MSAGM fynychu. Mae yna hefyd rai digwyddiadau 'cefnogaeth MSAGM' rhanbarthol a chyfarfodydd mewn dinasoedd.



Digwyddiadau Clwb

Os ydych chi newydd ymuno ag un o'n clybiau MSAGM gwych, byddwch chi'n sicr o fod yn ymwybodol o'r digwyddiadau maen nhw'n eu cynnal. Mae gan lawer o glybiau raglen wythnosol o ddigwyddiadau ond nid yw pob clwb yn cynnal yr un peth felly siaradwch â phwyllgor eich clwb i gael gwybod mwy am yr hyn maen nhw wedi'i gynllunio!

Os ydych chi'n aelod annibynnol, cadwch lygad am unrhyw ddigwyddiadau annibynnol a gynhelir gan ein Cynrychiolydd Annibynnol. Os oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer digwyddiadau annibynnol neu os ydych chi eisiau cynnal un eich hun, mae croeso i chi gysylltu â'r Swyddog Aelodau neu'r Cynrychiolydd Annibynnol drwy e-bostio members@ssago.org neu indie@ssago.org.

Strwythur MSAGM

Tîm Pinc



Tîm Pinc 2025-26

O'r chwith i'r dde, rhes uchaf: Ben (Cysylltiadau), Ed (Ysgrifennydd), Ewan (Aelodau), Abi (Digidol), Bee (Swyddog cyflenwi); **rhes waelod:** Nem (Gwe), Rose (Digwyddiadau), Lucy (Cyhoeddusrwydd), Lara (Trysorydd), Jack (Cadeirydd)

Mae Tîm Pinc yn cynnwys y Prif Swyddog Gweithredol (Cadeirydd, Ysgrifennydd, Trysorydd, Swyddog Aelodau, Swyddog Cyhoeddusrwydd) a Chynorthwyyr (Swyddog Digwyddiadau, Swyddog cyflenwi, Cynorthwyydd Digidol, Cynorthwyydd Gwe, Cynorthwyydd Elusennau, Swyddog Cyswllt). Caiff aelodau'r Bwrdd Gweithredol eu hethol yng Nghyfarfod Cyffredinol Blyneddol MSAGM bob gwanwyn, tra bod y Cynorthwyyr yn cael eu penodi am gyfnod o dair blynedd gan Dîm Pinc. Gwaith Tîm Pinc yw gofalu am weinyddiaeth MSAGM, ei gyllid, ei gyhoeddusrwydd a'i aelodaeth.

Gallwch weld Tîm Pinc mewn digwyddiadau drwy chwilio am eu hwdis/crysau-t pinc llachar!



Am fwy o fanylion am holl swyddogaethau gwahanol Tîm Pinc gweler Taflen Ffeithiau 10. I gael gwybod mwy am yr hyn y mae'r Tîm Pinc presennol wedi bod yn ei wneud a'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol, ewch i <https://ssago.org/pink>.

Cyfarfodydd y Cynrychiolwyr

Cyfarfod Cynrychiolwyr yw cyfarfod sy'n digwydd bob Rali, fel arfer ar fore Sul - bydd rhywun yn mynychu cyfarfodydd y Cynrychiolwyr ar ran eich clwb os oes gennych aelodau yn y digwyddiad. Mae cyfarfod y Cynrychiolwyr yn gyfle i'r clybiau ddarganfod mwy am yr hyn y mae Tîm Pinc wedi bod yn ei wneud. Mae hefyd yn gyfle i chi godi unrhyw broblemau neu bryderon sydd gennych.

Ar ôl pob cyfarfod Cynrychiolwyr cynhelir cyfres o bleidleisiau ar-lein. Mae hyn yn rhoi cyfle i'ch clwb drafod pynciau ac yna adrodd yn ôl i Dîm Pinc drwy'r ardal bleidleisio ar-lein. I ddarganfod pwy yw Cynrychiolydd eich clwb, ewch i dudalen eich clwb ar y wefan neu siaradwch â phwyllgor eich clwb.

Gweler Taflen Ffeithiau 25 (Rôl Cynrychiolydd MSAGM) am ragor o wybodaeth am Gynrychiolwyr MSAGM.

Cysylltu â Thîm Pinc

Y tu allan i Gyfarfod Cynrychiolwyr mewn Digwyddiad Cenedlaethol fel Rali, mae aelodau Tîm Pinc hefyd yn hawdd cael gafael arnynt trwy ddulliau eraill. Os hoffech gysylltu â nhw'n uniongyrchol, y cyfeiriad e-bost pink@ssago.org. Os oes gennych unrhyw gwestiynau i aelod penodol o Dîm Pinc, dyma eu cyfeiriadau e-bost:

Pwyllgor Gweithredu

- Cadeirydd: chair@ssago.org
- Ysgrifennydd: secretary@ssago.org
- Trysorydd: treasurer@ssago.org
- Aelodau: members@ssago.org
- Cyhoeddusrwydd: publicity@ssago.org

Cynorthwyyr

- Digwyddiadau: eventsofficer@ssago.org
- Swyddog Cyflenwi: quartermaster@ssago.org
- Digidol: digital@ssago.org
- Gwe: web@ssago.org
- Elusennau: charities@ssago.org
- Cysylltiadau: liaisons@ssago.org

Ym mhob achos bron iawn, y dewis gorau yw anfon e-bost at pink@ssago.org, fel ei fod yn mynd at y tîm cyfan!



Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Rali Pinc Tîm, Mawrth 2025

Cyfarfod Blynyddol


Cynhelir ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn Rali'r Gwanwyn bob blwyddyn ar fore Sul y Rali. Y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yw lle gall pobl ymgeisio am swyddi ar y Pwyllgor Gwaith cenedlaethol a lle mae clybiau sy'n rhedeg i gynnal pob digwyddiad yn gwneud cais am holl leoliadau Raliâu a Dawns y flwyddyn nesaf. Wedyn, mae pobl yn pleidleisio gan ddefnyddio gwefan MSAGM i ddewis pa ymgeiswyr yr hoffent weld yn cael eu hethol.

Manion eraill ynghylch MSAGM

Aelodaeth

Caiff unrhyw un sy'n astudio mewn sefydliadau addysg uwch ledled y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd fod yn aelod o MSAGM Caniateir i aelodau nad ydynt yn fyfyrwyr ymuno fel "Aelod Cyswllt", dylai'r aelodau hyn fod yn darparu cefnogaeth i'r clwb ac mae angen rhesymau dros gyfiawnhau pob Aelod Cyswllt. Mae gan bob aelod hefyd hawl i flwyddyn o aelodaeth gyswllt ar ôl iddynt raddio. Mae gennym ni hefyd sefydliad partner, Cymdeithas Graddedigion y Sgowntiaid a'r Geidiaid (SAGGA), ar gyfer graddedigion y gallwch chi wedyn symud ymlaen iddynt.

Y ffioedd aelodaeth ar hyn o bryd yw £6 i fyfyrwyr a £9 i Aelodau Cyswllt - fel arfer, bydd hyn yn cael ei drefnu trwy eich clwb.



Phil a Phillipa, dau o faskotiaid MSAGM Southampton

Masgotiaid

Mae gan bob clwb ei faskot ei hun, fel arfer tegan meddal. Yna caiff y masgot hwn ei ddynodi fel un y gellir ei ddwyn. Masgot y gellir ei ddwyn yw un y gellir ei gipio mewn Digwyddiad Cenedlaethol fel y gellir ei ddychwelyd ar y diwedd drwy ildio rhywbeth. Gwneir hyn mewn hwyliau da ac nid yn faleisus, ni chaniateir unrhyw rym a dim ond masgotiaid sydd wedi cael eu trosglwyddo neu eu gadael y gellir eu dwyn a'u trosglwyddo i aelod o Dîm Pinc i'w cadw'n ddiogel. Os oes gennych chi unrhyw faskotiaid eraill, mae'r rhain wedi'u labelu fel rhai na ellir eu dwyn a bydd y lleidr yn wynebu cosb am ddwyn unrhyw un ohonynt. Mae 'cosbau'r' gorffennol wedi cynnwys ras rwystrau fwdlyd, gynnu dŵr, golchi llestri, canu a bwyta lobsgows dros ben. Trowch i Daflen Ffeithiau 29 am ragor o wybodaeth!

Y Cyfryngau Cymdeithasol

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn ffordd werthfawr iawn o ledaenu gair MSAGM, recriwtio aelodau newydd, darganfod gwybodaeth ac aros mewn cysylltiad yn gyffredinol. Mae'n debyg y bydd gan eich clwb lawer o'u cyfrifon cyfryngau cymdeithasol eu hunain wedi'u cysylltu â thudalen eich clwb ar y wefan.

Mae gan MSAGM cenedlaethol eu cyfryngau cymdeithasol eu hunain gan gynnwys:

- [Instagram](#): i Dîm Pinc rannu gwybodaeth gyffredinol a hyrwyddo MSAGM - mae gan lawer o Ddigwyddiadau Cenedlaethol eu cyfrifon Instagram eu hunain hefyd!
- [Discord](#): lle i aelodau ryngweithio, rhannu syniadau a gofyn cwestiynau, ac aros mewn cysylltiad mewn sal cyfrwng gwahanol. Hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfathrebu yn ystod ein Digwyddiadau Cenedlaethol!
- [Tiktok](#): i Dîm Pinc rannu gwybodaeth gyffredinol, hyrwyddo MSAGM, a chael ychydig o hwyl
- [Facebook Page](#): i'r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol rannu gwybodaeth gyffredinol am MSAGM ag aelodau
- [Facebook Group](#): i aelodau gyfathrebu a rhannu syniadau, gofyn cwestiynau a rhyngweithio â'i gilydd yn gyffredinol ar lefel genedlaethol

Dod o hyd i wybodaeth

Nid yw'r ddogfen hon yn gynhwysfawr, mae llawer o ddogfennau gyda gwybodaeth am MSAGM ar gael ar y wefan yn <https://www.ssago.org/resources>. Mae'r rhain wedi'u rhannu'n wahanol gategorïau:

- Adnoddau Clwb - yn cynnwys y ddogfen hon, canllawiau recriwtio myfyrwyr newydd, ac ati
- Taflenni ffeithiau - canllawiau ar lawer o bynciau
- Polisi - yn nodi rheolau a chanllawiau y mae'n rhaid eu dilyn hefyd
- Ffurflenni - os ydych chi'n mynd ar daith i rywle neu'n gwneud gweithgareddau anturus

Gellir chwilio am yr holl ddogfennau hyn gan ddefnyddio'r bar chwilio ar waelod y dudalen. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ac na allwch chi ddod o hyd i'r ateb, anfonwch e-bost at pink@ssago.org a byddwn yn gallu egluro a'ch cyfeirio at y dogfennau cywir.